

DATBLYGIAD ARFAETHEDIG CAPEL BETHEL

Cynllun Arfaethedig – Prosiect Cymunedol Menter Gymdeithasol
Capel Bethel

Cam cyntaf – ymgynghoriad cymunedol a phrosiect dichonoldeb.



Rydym yn lwcus dros ben o feddu ar gymuned glos yn Nolwyddelan. Dros y blynyddoedd bu sawl clwb, cymdeithas a gweithgareddau dan eu sang. Fodd bynnag, dros y ddegawd ddiwethaf, mae'n ymddangos fod mwyfwy o'r clybiau hyn yn trafferthu i ddenu aelodau a dal ati i weithredu. Un mudiad o'r fath ydy Capel Bethel, sef Capel annibynnol sydd ar sgwâr Dolwyddelan. Yn anffodus mae'r capel wedi cau erbyn hyn ac mae'n debyg y caiff ei gwerthu.

Mae adeilad y capel ymysg un o adeiladau cymunedol sylweddol olaf y pentref ac o ganlyniad mae cyfle i weld ydy trigolion y pentref yn dymuno mynd rhagddi i ail-bwrpasu'r adeilad hwn, ei adfer a manteisio ar ei dreftadaeth er defnydd y gymuned.

Gan fynd ati i geisio cynnal mudiad nid er elw, sydd er budd ac o dan ofal y gymuned, gyda'r nod eang o ategu lles corfforol, meddyliol ac ysbrydol cymunedol, gallwn ennill cyllid i ddatblygu'r adeilad. Byddai'r mudiad hwn yn ategu cryfderau sylweddol presennol y pentref ynghyd â chefnogi ac annog cydweithio gyda grwpiau a mudiadau presennol. Bydd angen sicrhau fod y prosiect yn ddichonol – h.y. yn gallu cefnogi busnes a chyflogi staff, yn ogystal â chefnogi gwirfoddolwyr gan sicrhau caiff unrhyw elw ei ad-dalu i'r prosiect a'r gymuned.